**TGAU**

**3010NA0-1**

**DYDD GWENER, 26 MAI 2023 – PRYNHAWN**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN UWCH

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(S23-3010NA0-1-MLP-A4-18)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**

   **Yn y cerddi mae'r beirdd YN CYFLEU GOBAITH MEWN SEFYLLFA ANODD.**

   **CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL.**

   **Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:**

- **cynnwys a neges / themâu y cerddi**
- **sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)**
- **eich ymateb personol i'r cerddi.**

   **Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

## GWELD Y GORWEL

**Yn rehab y colli nabod – sŵn traed**
**sy'n troi'r awr ddiddarfod,**
**sŵn y byw diflasa'n bod.**

**Yn rehab, bod yw'r rheol, – bod drwy'r dydd,**
**bod drwy'r daith hunanol**
**wna druggie'n dod o'i rigol.**

**Yn rehab o dan label, – yn nheilchion**
**ergydion ei gawdel**
**gwrid ei gariad yw gorwel.**

**Sŵn y dydd yw hi sy'n dod – o'r nosau,**
**rhanna ias cyfarfod,**
**y sŵn byw melysa'n bod.**

**Aneirin Karadog**

(Trowch y dudalen)

**YMWELWYR**

**Daethant eto heddiw i'r ward
â'u *pwysïau o flodau i sirioli'r lle.
Dod yn sblash o liw
iddi gael arogli'r llethrau,
anadlu'r pridd a gweld yr haul.**

**Dod â'u cylchgronau taenu clecs
i'w chadw rhag gwallgofi'n ei chell.
Dod yn gusanau i gyd
i rannu cyfrinachau
am *helbulon ysgol a chariad newydd,
am gigio i guriad *Gwibdaith Hen Frân
a Chowbois Rhos Botwnnog.**

**Ac er i fysedd yr heulwen
wthio'u ffordd drwy ffenestri'r ward
gan ddawnsio'n ysgafn ar wynder gobennydd
gwyddai fod y gaeaf yn gafael
a dieithrwch nos yn cau amdani.**

**Hwythau'n byw celwydd
ac yn rhyw ddisgwyl fesul *ffun
y deuai pelydryn, un pelydryn
i oleuo ei byd.**

**Geraint Lloyd Owen**

**(Trowch y dudalen)**

## GEIRFA

* pwysïau – mwy nag un tusw / bwnshied
* helbulon – helyntion
* Gwibdaith Hen Frân a Chowbois Rhos Botwnnog – grwpiau pop Cymraeg
* ffun – anadl

DIWEDD Y PAPUR